

## Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Hydref 2021):

### Mae Bywydau Duon o Bwys – Nodiadau i'r Tiwtor

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod rhai o'r materion sy'n gysylltiedig ag ymgyrch *Mae Bywydau Duon o Bwys*;
- Trafod cydraddoldeb, amrywiaeth a hunaniaeth;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Mae mis Hydref yn fis Hanes Pobl Dduon ac yng Nghymru. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi paratoi'r uned hon i roi cyfle i ddysgwyr ar lefel Uwch drafod rhai o'r materion sy'n gysylltiedig ag ymgyrch Mae Bywydau Duon o Bwys. **Byddwch yn ofalus wrth gyflwyno a llywio trafodaethau ar gyfartaledd, amrywiaeth a hiliaeth - bydd angen bod yn sensitif wrth drafod profiadau personol a sicrhau nad oes rhwydd hynt i ragfarn gael ei lleisio yn y dosbarth.**

Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn.

#### 1. Geirfa

Sicrhewch fod y dysgwyr yn derbyn copi o'r eirfa ymlaen llaw a gofynnwch iddynt ei dysgu.

#### 2. Cyflwyniad

Mae gwahanol ddulliau posib o fynd dros y cyflwyniad, e.e. y tiwtor i ddarllen yn uchel, y dysgwyr i ddarllen yn uchel – brawddeg ar y tro cyn newid y darlennydd, parau i ddarllen i'w gilydd gan gyfnewid darlennydd. Ewch dros unrhyw eirfa neu ymadroddion sy'n peri anhawster.

#### 3. Gwylio a Gwrnado 1 – Seren Jones

Anerchiad Seren Jones fel Llywydd y Dydd yn yr Ŵyl Amgen a gynhaliwyd yn lle'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2020 ydy'r darn fideo a ddefnyddir yma. Mae copi o'r fideo wedi'i rhannu'n dair rhan ar gael gyda phe cyn yr uned, neu mae modd gweld y fideo gyfan ar wefan Cymru Fyw y BBC yma: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53569056>. Mae trawsgrifiad yn Atodiad 1 er gwybodaeth. Efallai y bydd angen esbonio rhywfaint am yr Ŵyl Amgen a chysyniad Llywydd y Dydd - h.y. person adnabyddus sy'n cael gwahoddiad i gael teitl "llywydd" gŵyl am y dydd, ac o bosib, yn cael llwyfan i annerch yr ŵyl.

Cyn chwarae'r fideo, rhowch y dysgwyr ar waith gyda chwestiynau 1-4.

1. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gysylltu'r geiriau â'r diffiniadau cywir ac ewch dros yr atebion. Gallwch ddefnyddio'r sleidiau Powerpoint i gyflwyno'r ymarfer a'r atebion.

amlddiwylliannol	yn cynnwys llawer o grwpiau diwylliannol neu ethnig gwahanol
hiliaeth	casineb neu wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd eu hil neu ethnigrwydd
cydraddoldeb	sefyllfa lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal

hunaniaeth	casgliad o nodweddion sy'n ein gwneud ni'n ni ein hunain
rhagdybiaeth	barn sy gyda/gynnoch chi cyn cael gwybodaeth am rywbeth
anghydraddoldeb	sefyllfa lle nad ydy pobl yn cael eu trin yn gyfartal
Cymreictod	y cyflwr o fod yn Gymro neu'n Gymraes neu'n perthyn i Gymru
diniwed	heb wneud drwg neu heb fwriadu gwneud drwg

2. Trafodwch sut mae'r ferf **sbarduno** yn cael ei defnyddio i ddweud bod digwyddiad neu brofiad wedi arwain at ryw ymateb a'r defnydd o'r ymadrodd **cael fy/dy/ei/ein/eich/eu sbarduno**. Gofynnwch i barau osod y geiriau mwyaf addas o'r rhestr yn y bylchau priodol yn y brawddegau.

Ewch dros yr atebion:

- Cafodd Dafydd ei sbarduno i **gyfansoddi** r gân gan ganlyniad y refferendwm.
- Sbardunodd y gôl **ddathliadau** mawr ymhlith cefnogwyr y cochion.
- Roedd darllen am hanes Rosa Parks wedi sbarduno **trafodaeth** yn y dosbarth am hiliaeth a hawliau sifil.
- Ymweliad yr Eisteddfod â'i hardal oedd wedi sbarduno Mari i **gystadlu** am y Gadair.
- Roedd llawer o bobl wedi cael eu sbarduno i **wirfoddoli** yn eu cymuned yn ystod argyfwng y Coronafeirws.
- Clywed criw o ffrindiau yn siarad yr iaith ar noson allan wnaeth fy sbarduno i fynd ati i **ddysgu Cymraeg**.

3. Trafodwch sut mae'r ymadrodd **andros o...** yn cael ei ddefnyddio gydag enwau yn ogystal ag ansoddeiriau a gofynnwch i barau ffurfio brawddegau yn cynnwys **andros o** gyda'r enwau/ansoddeiriau a nodir yn yr uned. Wedi iddynt gael cyfle i ffurfio'u brawddegau, dewch â phawb ynghyd a gofynnwch i un o'r parau adrodd eu brawddeg ar gyfer un o'r enwau/ansoddeiriau. Gwnewch hyn gyda phob gair yn ei dro, gan wahodd pâr gwahanol i gynnig brawddeg bob tro. Os bydd angen, gallwch nodi'r frawddeg ar y bwrdd gwyn/sgrin a thrafod unrhyw eirfa neu agweddau gramadegol sy'n codi.

Trafodwch eiriau eraill sy'n cael eu defnyddio yn lle **andros o...**, gan gynnwys ymadroddion sy'n perthyn i'ch tafodiaith leol chi. Dyma rai posibiliadau:

ofnadwy o...

coblyn o...

..ar y naw

cythraul o...(gydag enw)/..ar y cythraul (gydag ansoddair)

4. Cyn chwarae rhan gyntaf y fideo, atgoffwch y dysgwyr am y geiriau a drafodwyd yn ymarfer 1 uchod a gofynnwch iddynt wrando amdanynt yn y clip.  
Chwaraewch ran gyntaf y fideo (hyd at 02:16 os ydych yn defnyddio'r fideo ar-lein). Gwiriwch fod pawb wedi clywed y geiriau yn y rhestr, wedyn os oes angen, chwaraewch y rhan hon eto cyn gofyn i barau drafod cwestiynau 5-7. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â phawb ynghyd i fynd dros yr atebion.

5. Yn ôl Seren Jones, beth oedd: i) **ddim** yn newydd; a ii) yn newydd ynglŷn ag achos George Floyd.
- i) Doedd dyn du wedi cael ei ladd gan yr awdurdodau ddim yn beth newydd (yn enwedig yn yr Unol Daleithiau).
- ii) Y ffaith bod y digwyddiad cyfan wedi cael ei recordio a'i roi ar y we oedd yn newydd.
6. Pam roedd y cyfnod ar ôl marwolaeth George Floyd yn flinedig i Seren?
- Roedd yn gyfnod blinedig oherwydd ei bod wedi cael sgysiau di-ri am yr achos a'i bod yn teimlo bod llawer o bobl yn meddwl bod dyletswydd ar bobl dduon i egluro pam bod yr achos mor erchyll.
7. Pam roedd Seren yn meddwl ei bod yn bwysig iddi hi wneud yr anerchiad hwn fel rhan o Wyl AmGen ?
- Oherwydd ei bod hi'n wyl Gymraeg ac nad oedd hi'n credu bod anghydraddoldeb a hiliaeth yn cael eu trafod digon yn y gymuned Gymraeg/Gymreig.
8. Cyn chwarae ail ran y fideo, ewch dros yr enwau lleoedd sydd yng nghwestiwn 8 a gofynnwch i'r dysgwyr wrando amdanynt.
- Chwaraewch ail ran y fideo (hyd at 05:23), yna gofynnwch i'r parau drafod arwyddocâd y lleoedd a enwir cyn i chi ddod a phawb ynghyd i fynd dros yr atebion.
- Caerfyrddin, Cwmaman, Casnewydd, Ynys Môn – roedd Seren Joneses eraill yn byw yn y lleoedd yma ac i'w gweld ar Facebook.
- Birmingham – dyma ble'r aeth Seren ar gyfer ei diwrnod cyntaf o hyfforddiant gyda'r BBC.
- Os oes angen, chwaraewch y rhan hon eto cyn gofyn i barau drafod cwestiynau 9-10. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â phawb ynghyd i fynd dros yr atebion.
9. Sut roedd y Seren Joneses eraill i gyd yn wahanol i'r siaradwraig?
- Ro'n nhw i gyd yn groenwyn.
10. Pam mae Seren yn dweud bod y dyn oedd â'r gofrestr yn cael trafferth i ddeall ei bodolaeth?
- Oherwydd ei fod yn cymryd yn ganiataol mai rhywun croenwyn fyddai'r person oedd yn siarad Cymraeg ar y cwrs hyfforddi a'i fod yn mynegi syndod o weld rhywun du sy'n gallu siarad Cymraeg.
11. Cyn chwarae rhan olaf y fideo, ewch dros y rhifau sydd yng nghwestiwn 11 a gofynnwch i'r dysgwyr wrando amdanynt.
- Chwaraewch ran olaf y fideo, yna gofynnwch i'r parau drafod arwyddocâd y rhifau cyn i chi ddod a phawb ynghyd i fynd dros yr atebion.
- 2011 – blwyddyn y cyfrifiad diwethaf.
- 94% - y ganran o Gymry oedd wedi datgan eu bod yn wyn yn y Cyfrifiad hwnnw.
- 6% - y ganran o Gymry sy'n dod o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- 900,000 – mae llai na hyn o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghymru

Miliwn – mae gan y Llywodraeth nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os oes angen, chwaraewch y rhan hon eto cyn gofyn i barau drafod cwestiwn 12 a dewch â phawb ynghyd i fynd dros yr ateb.

12. Pan mae Seren yn dweud bod angen ‘datgymalu’r hierarchiaeth’ o Gymreictod, beth mae hi’n ei feddwl?

Os ydy’r gymuned Gymraeg am dyfu, mae angen derbyn bod pobl o bob math o gefndiroedd yn Gymry a bod pawb mor Gymreig â’i gilydd.

#### 4. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy’n trafod ymateb i farwolaeth George Floyd a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gymuned Gymraeg a rhowch y dysgwyr ar waith mewn grwpiau bach i drafod.

#### 5. Gwylio a Gwranddo 2 – Cerfluniau a chofebau

1. Rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau o dri a gofynnwch iddynt fynd trwy’r geiriau sydd yn y blwch gan esbonio eu hystyr yn Gymraeg a cheisio dyfalu beth fydd thema’r darn fideo. Dewch â phawb ynghyd i fynd dros unrhyw eiriau sydd angen sylw a chael clywed eu hawgrymiadau ynglŷn â’r thema.
2. Cyflwynwch yr ymadrodd **yn ei anterth** a rhowch y dysgwyr ar waith mewn parau i wneud yr ymarfer i uno’r haneri brawddegau. Ewch dros yr atebion – mae sleidiau Powerpoint ar gael i chi gyflwyno’r ymarfer a’r atebion. Neu, mae modd i chi osod yr ymarfer trwy erfyn *Polls* os ydych yn dysgu trwy *Zoom* – ym mhob cwestiwn, gosodwch hanner cyntaf un o’r brawddegau a gallwch osod y chwech ail hanner fel opsiynnau ar gyfer ateb pob cwestiwn. Dyma’r atebion disgwylidig:

Pan gyrhaeddodd y storm ei hanterth neithiwr,...	..roedd y gwynt yn chwythu hyd at 70 milltir yr awr.
Pan oedd yn ei hanterth tua 100 OC,...	..roedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn ymestyn o Brydain i’r Aifft.
Pan oedd y fasnach gaethwasiaeth yn ei hanterth yn y 18fed ganrif,...	..roedd degau o filoedd o bobl yn cael eu cipio o Affrica a’u cludo dros Gefnfor Iwerydd.
Pan oedd y gwaith ar lannau afon Tawe yn ei anterth,...	..roedd 50% o holl gopr y byd yn dod o Abertawe.
Pan mae’r tymor gwyliau ar ei anterth ym misoedd yr haf,...	..mae poblogaeth Pen Llŷn yn treblu.
Pan mae’r tymor blodau yn ei anterth,...	...mae’r ardd yn llawn lliwiau hyfryd

3. Cyfeiriwch at y pedwar dyn a enwir yn y cwrs a gwahoddwch pawb yn ei dro i gynnig rhywbeth maen nhw'n ei wybod am unrhyw un o'r dynion hyn. Wedyn ewch ati i ddangos y fideo. Mae'r fideo ar gael mewn ffeil gyda phecyn yr uned hon, neu ar-lein yn <https://www.youtube.com/watch?v=Vcsw72GJpJI>. Mae trawsgrifiad yn Atodiad 2 er gwybodaeth.
4. Ar ôl dangos y fideo, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3/4 a gofynnwch i bob grŵp nodi tair ffaith a gyflwynwyd yn y fideo ar gyfer pob un o'r pedwar cymeriad hanesyddol, yn ogystal â lleoliad eu cofeb. Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a gwahoddwch bob grŵp yn ei dro i gynnig eu tair ffaith am un o'r cymeriadau. Gallwch roi cyfle i aelodau'r grwpiau eraill ychwanegu ffeithiau eraill.

## 6. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau trafod am gerfluniau a chofebau a Mis Hanes Pobl Dduon. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

## Atodiad 1 – Trawsgrifiad o anerchiad fideo Seren Jones

Mis Mai oedd mis anoddaf fy ngyrfa hyd yn hyn. Dyma pryd gafodd George Floyd ei ladd gan Derek Chauvin, aelod o Heddlu Minneapolis yn America. Dyn du arall yn colli ei fywyd i'r awdurdodau - sefyllfa sydd ddim yn un newydd, yn enwedig yn yr Unol Daleithau.

Beth oedd yn newydd am yr achos, oedd y ffaith cafodd y digwyddiad cyfan ei recordio a'i roi ar y we. Yr wyth munud 46 eiliad cyfan, a'r holl amser fe ddywedodd George Floyd '*I can't breathe*'.

Fe **sbardunodd** marwolaeth George Floyd brotestiadau Mae Bywydau Du o Bwys ar draws y byd, yn ogystal â thrafodaethau hir ac anghyfforddus, rhwng ffrindiau, teuluoedd a chymdogion am **hiliaeth, cydraddoldeb a hunaniaeth**.

Dros y ddau fis diwethaf, dwi wedi cael gymaint o sgysiau am y pwnc - gormod hyd yn oed, sy'n anochel mewn ffordd. Mae 'na gred bod dyletswydd ar bobl ddu i egluro pam oedd beth ddigwyddodd i George Floyd mor erchyll - er nad yw'n ddyletswydd arnyn nhw o gwbl. Felly fel llawer o bobl yn y gymuned, dwi wedi ffeindio'r cyfnod yn flinedig ac yn **andros o** emosiynol.

Ond, er hynny, dwi wedi ffeindio fy hun yn ysgrifennu araith ac yn llywio sgwrs ar gyfer Gŵyl AmGen BBC Radio Cymru a BBC Cymru Fyw, yr ŵyl gyntaf o'i bath i gael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, erioed. A dyna'r prif reswm nes i benderfynu cymryd rhan.

Dydyn ni ddim yn siarad am **anghydraddoldeb**, am hiliaeth yn y gymuned Gymreig er bod y ddau beth hyn yn bodoli yma yng Nghymru hefyd. Doedd llofruddiaeth George Floyd ddim jyst yn ddyn yn cael ei ladd oherwydd lliw ei groen, roedd e'n symboleiddio llais sy'n cael ei anwybyddu, a bywyd sy'n llai pwysig - rhywbeth mae gormod ohonom ni yn gallu deall.

\*\*\*\*\*

Mae Cymru yn adre i mi ac i filoedd o bobl eraill o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrif ethnig.

O beth dwi'n deall, yn ôl y gymdeithas dwi erioed wedi 'edrych' yn Gymreig. A dwi 'di sylwi, does dim ots pa mor Gymraeg yw dy enw di, os dwyt ti ddim yn edrych fel mae dy enw'n 'awgrymu', mae dy **Gymreictod** yn cael ei gwestiynu.

Dyma'r patrwm sydd wedi ymddangos, o fy mhлentyndod ac i mewn i fy ugeiniau. Blynyddoedd yn ôl, tra roeddwn i yn yr ysgol uwchradd, penderfynais roi fy enw mewn i beiriant ymchwil Facebook. Dwi ddim yn cofio pam, ond dwi'n cofio eisiau gwybod beth fysa fe fel i rywun chwilio amdana i ar y platfform cymdeithasol hwn.

Cymerodd y dasg lai nag eiliad i Facebook ei chwblhau, a chefais fy nghyflwyno i ddwsinau o Seren Joneses ar draws y wlad. Un ar ôl y llall, mi welais wynebau o Gaerfyrddin, Cwm Aman, Casnewydd ac Ynys Môn. Wynebau hardd, wynebau hapus, wynebau hyderus. Roedd rhai yn ferched yn eu harddegau ac eraill yn fenywod ac yn famau.

Ond yr un peth oedd yn debyg i bawb oedd lliw eu croen.

Doeddwn i heb sylwi'n llwyr pa mor Gymraeg oedd yr enw, fy enw: Seren Jones. Jyst enw cyfarwydd Cymraeg yw e, fel Lowri neu Angharad neu Catrin. Doeddwn i ddim yn ymwybodol bod Seren Jones - i rai - efallai yn edrych fel rhywun penodol, a ddechreuais i gwestiynu faint o bobl oedd yn cysylltu'r enw Seren Jones gyda'r merched roeddwn i'n syllu arnynt ac yn sgorlio heibio ar Facebook.

Doedd hi ddim yn annisgwyl felly, bod pobl yn synnu pan oeddwn i'n cyflwyno fy hun, heb sôn am y ffaith bod fi'n siarad Cymraeg.

*'You're the Welsh language trainee?!'*

Dyma oedd yr ymateb a gefais i ar fy niwrnod cyntaf o hyfforddiant gyda'r BBC yn Birmingham, pedair blynedd yn ôl.

*'Yes,' meddaf. 'I'm Seren Jones.'*

*'You're Seren Jones?! And you speak Welsh?'* meddai'r dyn gyda chofrestr y newyddiadurwyr newydd.

Felly, ar ddiwrnod cyntaf fy swydd newydd, ffeindiais fy hun mewn sefyllfa ble roedd rhywun yn cael trafferth wrth ddeall fy modolaeth. Er roedd ymateb y dyn yn **ddiniwed** ac yn anffodus, yn gyffredin, doedd e ddim yn gwybod neu'n credu fod pobl fel fi - nad sy'n wyn - hefyd yn gallu siarad Cymraeg. Felly mewn ffordd, gyda llawer iawn o bobl eraill, doedd e ddim yn gwybod ein bod ni'n bodoli. Dyma ganran o boblogaeth y wlad nad sy'n cael eu hystyried yn Gymry oherwydd lliw eu croen. Alla i ofyn pam bod y **rhagdybiaeth** yma yn un eang, ond dwi'n meddwl bod llawer ohonom ni yng Nghymru yn gwybod peth o'r ateb. Ac er mwyn deall yr ateb cyfan, mae'n rhaid i ni gynnal y sgysiau anghyfforddus yma.

\*\*\*\*\*

Yn ôl y cyfrifiad diwethaf yn 2011, roedd 94% o Gymry yn datgan eu hun yn wyn, sy'n meddwl mai dim ond 6% o Gymry sydd yn dod o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. O ran siaradwyr Cymraeg, mae llai na 900,000 yn byw yng Nghymru, ond dyw'r canrannau o bobl o gefndiroedd du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig sydd yn siarad Cymraeg ddim ar gael eto. Ac mae hynny'n d'eud digon.

Er bod Cymru yn troi'n fwy **amlddiwylliannol** pob blwyddyn, i rai mae yna natur ddethol yn dal i berthyn i'r gymuned Gymreig. Cymuned sydd wedi brwydro i gadw ei hiaith a'i diwylliant yn fyw, ac o ganlyniad yn amddiffynol am ei hunaniaeth.

Ac nid yn unig ydy'r iaith yn fyw - mae hi'n tyfu. Gyda gôl y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae mwy o bobl yn dysgu'r iaith nawr nag erioed o'r blaen.

Ond er bod ein hiaith yn symud ymlaen, ydy ein hagwedd tuag at ein poblogaeth yn symud yn yr un cyfeiriad? Oes angen cwestiynu Cymreictod pobl sydd gydag acenion gwahanol, cefndiroedd gwahanol a phrofiadau gwahanol?

Oes angen cymharu Cymreictod rhywun nad sy'n wyn ond sy'n siarad Cymraeg, gyda rhywun gwyn sydd ddim yn siarad yr iaith? Oes angen aros yn y gorffennol pan all y dyfodol edrych mor obeithiol? Unwaith y byddwn ni'n **datgymalu'r hierarchaeth** yma o Gymreictod, fe fydd y newid yn dechrau.

## Atodiad 2 – Trawsgrifiad o fideo Hansh - Cerfluniau Problematig Cymru

Mae cerfluniau yn cael eu codi i gofio person sydd wedi gwneud rhywbeth sydd yn werth ei gofio. Syml! Ond beth sy'n digwydd pan fo pobl yn dechrau cwestiynu beth yn union sydd yn werth ei gofio am y person yma. Dan ni i gyd y gwybod be ddigwyddodd i gerflun Edward Colston ym Mryste yn ddiweddar, ond tybed oes yna ambell gerflun yng Nghymru sydd yn crynu ar eu plinth y dyddiau yma.

Yn gyntaf, HM Stanley, gafodd ei eni yn nhref Dinbych ym 1841, ble mae cerflun i'w gofio yno heddiw. Mae Stanley yn enwog yn bennaf am ei daith trwy Affrica i ffindio Dr Livingstone. "*Dr Livingstone I presume*". Ond fel arall, tydi ei record o yn Affrica ddim yn un dda iawn. Roedd o'n gweithio yn ardal y Congo i Frenin Gwlad Belg, Leopold II. Ei job o oedd hawlio, dwyn a chadw tir i'r **Ymerodraeth** Felgaid. *Fun fact* i chi, tydi cerfluniau o Leopold II ddim yn boblogaidd iawn y dyddiau yma chwaith. Tra roedd Leopold, Stanley a Gwlad Belg *in charge* yn y Congo, cafodd rhwng 2 a 10 miliwn o Affricanwyr eu lladd. Tra'n gweithio yn Affrica, cafodd Stanley ei hun ei gyhuddo o nifer o **droseddau** yn erbyn y **brodorion**, yn cynnwys *excessive violence*, gwerthu'r brodorion i'r farchnad **gaethweision** a **cham-drin** merched brodorol **yn rhywiol**. Chafodd o erioed ei gosbi am hyn, wrth gwrs. Ydy hwn y math o berson ddylai gael ei gofio a'i **glodfori** yma yng Nghymru. Dim ond ers 2011 mae ei gerflun yn sefyll yng nghanol Dinbych. Ddylen ni wybod yn well?

Yn ail, Thomas Picton – milwr o Sir Benfro sydd â cherflun i'w gofio yng Nghaerdydd a **chofeb** fawr yng Nghaerfyrddin. Dyma'r un gath yr enw "*The Tyrant of Trinidad*". Fo oedd llywodraethwr yr ynys wedi i Brydain **goloneiddio**'r lle a doedd o ddim yn ddyn poblogaidd. Roedd o'n greulon iawn gyda brodorion yr ynys ac fe wnaeth o ffortiwn yn gwerthu caethweision. Cyrhaeddodd ei greulondeb **ei anterth** pan wnaeth o orchymyn i **arteithio** merch frodorol oedd ond yn 14 oed. Cafwyd Picton yn euog o hyn mewn achos llys - *guilty as charged*; ond gyda help ei gyfeillion cyfoethog o'r farchnad gaethweision, mi lwyddodd i wrthdroi'r dyfarniad. Ydy'r dyn yma'n un o arwyr Cymru? Mae'r ffaith fod ei gerflun yng nghasgliad Arwyr Cymru yn Neuadd y Ddinas Caerdydd yn awgrymu ei fod o. Be dach chi'n feddwl?

Yn olaf, David Lloyd George sydd â cherflun enwog ar y maes yng Nghaernarfon. Yr unig Gymro sydd wedi bod yn Brif Weinidog Prydain – arwr i lawer, ond mae ochr dywyllach i'w yrfa wleidyddol. Fel y Prif Weinidog yn ystod Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon rhwng 1919 a 1921, mi wnaeth o lawer o elynion. Dan ei ofal o y sefydlwyd y *Black and Tans* – cangen newydd o'r heddlu ddaeth yn enwog am eu **creulondeb**, **trais** a **llofruddiaeth**. Er enghraifft, aeth y *Black and Tans* i dref Balbriggan yng nghanol nos a llosgi'r lle i'r llawr yn ymateb i ymosodiad gan yr IRA ar ddau heddwes – 49 tŷ a 4 tafarn yn ulw ac fe laddwyd dau ddyn diniwed. Yn dilyn ei gyfnod fel Prif Weinidog, mi ffurfiodd berthynas gyda dyn doji iawn o'r Almaen. Yn 1936, fallai nad oedd llawer o bobl yn gwybod am holl **erchyllterau**'r Natsiaidd, ond wrth edrych yn ôl, peth gwirion iawn oedd galw Hitler yn "*the greatest living German*".

Be dach chi'n ei feddwl o'r cerfluniau yma? Oes yna le i'w clodfori yng Nghymru heddiw? Ydach chi'n meddwl y dylsan nhw gael eu tynnu i lawr? Neu ydach chi'n meddwl y dylai'r hanes llawn gael ei roi ar y cerfluniau? Beth bynnag sy'n digwydd, darllenwch, dysgwch a da chi, cofiwch!